PECYN GWYBODAETH

# ATHRO ADDYSG GORFFOROL, 3-19

# YSGOL BRO PEDR

## CYFLOG: GRADDFA ATHRO




'Ysgol Gydol Oed ble mae pob plentyn yn cyfri'

www.bropedr.ceredigion.sch.uk



# HYSBYSEB

Annwyl Ymgeisydd,


Diolch am ddangos diddordeb mewn swydd addysgu Addysg Gorfforol ar draws ein ystod oedran 3-19 yn Ysgol Bro Pedr. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfrannu'n hyderus at faes dysgu a phofiad Iechyd a Lles ein hysgol.

Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn y ffaith ei bod yn un o ysgolion cyntaf 3-19 Cymru, ac yn torri tir newydd o ran darparu addysg gydol oed ar gyfer ein disgyblion. Mae Ysgol Bro Pedr yn gyfuniad o ddwy ysgol flaenorol, sef Ysgol Gynradd Ffynnonbedr ac Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. Cafodd Ysgol Bro Pedr ei harolygiad Estyn diwethaf yn Hydref 2016. Er bod nifer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol yn 3 oed, daw nifer yn ogystal o ysgolion cynradd partner eraill o'r Awdurdod Lleol ac o Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin. Mae 1,007 o ddisgyblion ar rôl yr ysgol – 329 o ddisgyblion Meithrin i flwyddyn 6 a 678 o ddisgyblion Blwyddyn 7-13 (sy'n cynnwys 67 o ddisgyblion ym mlwyddyn 12 a 69 o ddisgyblion ym mlwyddyn 13).

Daw 70% o ddisgyblion yr ysgol o gartrefi lle nas defnyddir y Gymraeg. Mae'r disgyblion yn cael eu ffrydio'n ieithyddol, gyda dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a dosbarthiadau Cymraeg Ail-Iaith ym mlynyddoedd 3-13. Mae'r ysgol wedi mynd trwy ymgynghoriad llwyddiannus yn ddiweddar sy'n golygu bod disgyblion y Cyfnod Sylfaen i gyd yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Ar hyn o bryd, mae 24.42% o'n disgyblion yn hawlio prydiau ysgol am ddim (20.64% o'n disgyblion oed uwchradd a 32.21% o'n disgyblion oed cynradd). Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer ystod lawn o alluoedd. Mae 11.02% o'n disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ganran yn uwch o fewn yr oed cynradd (12.46%) o'i gymharu â'r oed uwchradd (10.32%). Mae proffil poblogaeth yr ysgol yn gosmopolitan, gyda Chymry cynhenid Ceredigion a Sir Gâr, canran uchel o siaradwyr Cymraeg, ond sydd o gefndir Seisnig, nifer gynyddol o ddisgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r ardal a'r ysgol a chanran sylweddol o ddisgyblion o Wlad Pwyl, Rwmania a chanran llai o ddisgyblion o Falaysia a China.

Lleolir Canolfan Y Bont, sef adnodd sirol ar gyfer disgyblion o oed uwchradd ag anghenion amrywiol (ASD, SLD, PMLD, MSI), ar safle'r ysgol. Mae'r ganolfan yn rhan lawn o'r ysgol, ac mae'r disgyblion ar rôl Ysgol Bro Pedr. Yn ogystal, sefydlwyd Uned Sgiliau Bywyd sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol lled ddwys a disgyblion ymddygiadol bregus a chyniga barhad a dilyniant i rai o ddisgyblion Canolfan y Bont lle'n berthnasol ac ymarferol. Mae yna 14 o ddisgyblion yn mynychu Canolfan Y Bont a 22 o ddisgyblion yn mynychu'r Uned Sgiliau Bywyd, ar hyn o bryd.

Mae Tîm Arwain Ysgol Bro Pedr yn cynnwys: Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, dau Bennaeth Cynorthwyol, Arweinydd Lles ac Arweinydd Cynnydd.






# PROSES YMGEISIO

- **Dyddiad Cau** — Dydd Mawrth, 8fed o Ebrill 2025
- **Cyfweliadau** — Dydd Gwener, 11eg o Ebrill 2025
- **Dyddiad Dechrau** — Dydd Llun, 1af o Fedi 2025

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant yn flaenoriaethau allweddol i Gyngor Sir Ceredigion. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Mae ein hysgolion wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn pob plentyn, a byddant yn cymryd camau i ddiogelu'u lles a chydnabod eu hawl i gael eu hamddiffyn. Caiff hyn ei gefnogi gan ethos cyffredinol yr holl ysgolion. Bydd angen gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y swydd hon.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cwrdd â holl ddisgwyliadau'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae medrau cyfathrebu rhagorol, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig yn hanfodol ar gyfer y swydd yma.

The above advert is for a full-time, permanent Physical Education post where the ability to communicate through the medium of Welsh and English is essential.






# SWYDD DDISGRIFIAD

## TEITL Y SWYDD – ATHRO ADDYSG GORFFOROL 3-19

## CYFLOG – GRADDFA CYFLOG ATHRO

Rydym yn awyddus i benodi ymarferydd effeithiol gyda'r ymrwymiad a'r weledigaeth i gyfrannu fel athro/awes yn y maes allweddol hwn yn Ysgol Bro Pedr. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ffynnu a datblygu fel aelod o dîm y gyfadran Iechyd a Lles ar draws ein ystod oedran 3-19. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gymwys i addysgu Addysg Gorfforol i'r amrediad oedran a gallu llawn yn Ysgol Bro Pedr. Rydym yn chwilio am berson egnïol a blaengar i sicrhau fod y maes hwn yn parhau i ffynnu yn Ysgol Bro Pedr, ac i gyfrannu at fywyd ehangach yr ysgol yn allgyrsiol.

### GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH BROFFESIYNOL

- Meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf am ddyletswyddau a chyfrifoldebau proffesiynol athrawon a'r fframwaith statudol y maen nhw'n gweithio ynddo.
- Deall y cyd-destun polisi addysg genedlaethol yng Nghymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg.
- Dangos blaengaredd ac egni wrth weithredu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru.
- Defnyddio dealltwriaeth o ddisgwyliadau, trefniadaeth ac addysgeg y camau cynnydd fel sail i'w hymarfer a'u cynllunio.
- Deall y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ddysgu a lles plant a phobl ifanc.
- Parhau i gaffael y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'u pynciau/meysydd cwricwlwm a'r addysgeg berthnasol i'w defnyddio fel sail i'w hymarfer.
- Deall yr angen i wella sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm.
- Deall ADY er mwyn bodloni amrywiol anghenion dysgwyr.






# SWYDD DDISGRIFIAD

### CYNLLUNIO A GOSOD TARGEDAU:

- Defnyddio amrywiaeth o strategaethau monitro ac asesu, gan gynnwys asesiadau ffurfiannol a chrynodol, i werthuso cynnydd y dysgwyr tuag at gyflawni eu hamcanion dysgu, a defnyddio'r wybodaeth hon i wella eu gwaith cynllunio ac addysgu eu hunain.
- Bodloni'r gofynion a'r trefniadau asesu ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm a chyfnodau y maen nhw'n eu dysgu, gan gynnwys paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau a chymwysterau cyhoeddus.
- Defnyddio technegau monitro ac asesu i nodi a chefnogi dysgwyr, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; dysgwyr sy'n fwy abl a thalentog, dysgwyr sy'n gweithio ar lefel is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed; dysgwyr sy'n methu â chyrraedd eu potensial; a dysgwyr ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.
- Cynnwys dysgwyr yn y gwaith o osod targedau ac wrth bwyso a mesur eu perfformiad a'i werthuso.
- Monitro a chofnodi cynnydd a chyflawniadau dysgwyr i ddarparu tystiolaeth o ystod eu gwaith, eu cynnydd a'u cyrhaeddiad dros gyfnod o amser, gan ystyried cyfranogiad a safbwynt y dysgwr.
- Rhoi adborth cywir ac adeiladol i ddysgwyr ar eu cryfderau, eu gwendidau, eu cyrhaeddiad, eu cynnydd a'r meysydd i'w datblygu, gan gynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.
- Rhoi adborth amserol, cywir ac adeiladol i gydweithwyr, rhieni a gofalwyr ar gyrhaeddiad dysgwyr, eu cynnydd, a'r meysydd i'w datblygu, gan ddefnyddio cofnodion ategol a thystiolaeth arall.

### DATBLYGIAD STAFF

- Cymryd rhan yn rhaglen datblygu staff trwy fod yn rhan o'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant pellach a datblygiad proffesiynol.
- Parhau gyda datblygiad personol yn y meysydd perthnasol gan gynnwys gwybodaeth am y pwnc a dulliau addysgu.
- Ymrwymo'n weithredol i'r adolygiadau sy'n rhan o broses Rheoli Perfformiad yr ysgol.




# SWYDD DDISGRIFIAD

## ADDYSGU

- Sefydlu a chynnal amgylcheddau dysgu effeithiol, lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel a hyderus.
- Dysgu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol a disgwyliedig sy'n berthnasol i anghenion y dysgwr, gan wneud defnydd priodol o'r canllawiau cenedlaethol perthnasol.
- Cynnig darpariaeth wedi'i phersonoli yn effeithiol wrth addysgu, gan gynnwys rhoi ystyriaeth ymarferol i amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.
- Herio achosion o ragfarnu, stereoteipio, bwlio ac aflonyddu, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol.
- Dysgu gwersi neu gyfresi o waith ag iddynt strwythur clir fel bod pob dysgwr yn deall yr amcanion dysgu arfaethedig, ac yn eu bodloni.
- Defnyddio strategaethau addysgu priodol sy'n datblygu gallu pob dysgwr i weithio ar y cyd ac yn annibynnol.
- Datblygu ar amrywiol brofiadau, cyflawniadau a diddordebau'r dysgwyr i'w helpu i wneud cynnydd.
- Rheoli'r amser addysgu a dysgu yn effeithiol.
- Rheoli'r amgylchedd dysgu ffisegol, yr offer, deunyddiau, testunau ac adnoddau eraill yn ddiogel ac effeithiol.
- Defnyddio strategaethau addysgu priodol i sicrhau ymddygiad cadarnhaol.
- Defnyddio strategaethau addysgu priodol i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.
- Defnyddio strategaethau addysgu priodol i hyrwyddo cynnydd a deilliannau da i ddysgwyr dros gyfnod estynedig o amser.
- Defnyddio TGCh yn effeithiol wrth addysgu a dysgu.
- Annog dysgwyr i wneud cynnydd annibynnol drwy ddarparu gweithgareddau neu gyfleoedd allgyrsiol i ddatblygu y tu allan i oriau ysgol, sy'n ategu'r gwaith a wneir yn yr ysgol, ac yn ymestyn arno.
- Cydweithio ag athrawon a chydweithwyr eraill, gan gynnwys asiantaethau allanol i wella dysgu a lles y disgyblion y maen nhw'n eu haddysgu.
- Hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o natur ddwyieithog Cymru a datblygu eu sgiliau dwyieithog fel sy'n briodol.



# MANYLEB PERSON

| Agwedd Maes | Yn Hanfodol | Yn Ddymunol |
|---|---|---|
| Addysg a Chymwysterau | • Athro cymwysedig<br>• Gradd Anrhydedd da mewn maes perthnasol i'r pwnc<br>• Tystiolaeth addas o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus | • Cymorth cyntaf<br>• Y gallu i ddysgu maes perthnasol hyd at Safon Uwch<br>• Gradd Uwch |
| Profiad Perthnasol | • Profiad o weithio â disgyblion o bob oedran a gallu<br>• Profiad o weithio gydag athrawon eraill i godi safonau cyrhaeddiad disgyblion | • Profiad o ddysgu mewn ysgol cynradd ac uwchradd.<br>• Profiad o ddysgu cwrs Safon Uwch |
| Gwybodaeth a Sgiliau Cysylltiedig â'r Swydd | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes addysgu<br>• Dealltwriaeth o nodweddion addysgu ardderchog ar draws amrywiaeth o gyfnodau allweddol<br>• Athro/awes ardderchog sy'n ysbrydoli disgyblion<br>• Sgiliau rhyngbersonol ardderchog<br>• Sgiliau TGCh da iawn a'r gallu i ddefnyddio TGCh i wella dysgu ac addysgu<br>• Gallu i gymell disgyblion i gyflawni eu potensial | |
| Nodweddion Personol | • Brwdfrydedd, dyhead ac angerdd at y pwnc a'r swydd<br>• Y gallu i weithio'n effeithiol o dan bwysau<br>• Y gallu i drefnu, cynllunio a blaenoriaethu amser yn effeithiol<br>• Ymrwymiad i gyfrannu at fywyd ehangach yr ysgol<br>• Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg<br>• Parodrwydd i herio eraill i gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol | |






# EIN PRIF FLAENORIAETHAU 2024-2025

## PRESENOLDEB

Gwella presenoldeb disgyblion gan gynnwys disgyblion sydd o dan anfantais

## PARODRWYDD I DDYSGU

Datblygu gweithdrefnau i hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu er mwyn caniatau cynnydd

## DYSGU AC ADDYSGU

Datblygu model addysgeg effeithiol er mwyn gwreiddo'r diwylliant o her a chefnogaeth uchel

## CYNNYDD

Hyrwyddo cynnydd dysgwyr drwy ddatblygu dulliau effeithiol o asesu ac ymateb i adborth ar draws yr ysgol

## ARWEINYDDIAETH

Cefnogi arweinwyr wrth werthuso gwaith yr ysgol er mwyn adnabod cyfleoedd i symud yr ysgol ymlaen

## LLAIS Y DYSGWR

Gwreiddio llais y dysgwr er mwyn sicrhau dylanwad gref ar ddarpariaeth a phenderfyniadau'r ysgol